

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Cyhoeddwyd: Chwefror 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 120A2015

Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tracey Davies a Gabrielle Smith.

Cynnwys

Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol, mae llawer o'r problemau a nodwyd yn flaenorol yn bodoli o hyd, ac nid yw'r gwelliant yn digwydd yn ddigon cyflym.

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned, ac mae'r trefniadau rheoli adrannol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid ydyw eto wedi diffinio cylch gorchwyl a gofynion y gwasanaeth nyrsio ardal o ran ei weithlu cymunedol	6
Mae deall y galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn her gan ei gwneud hi'n anodd asesu a oes digon o adnoddau i fodloni'r angen, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ymdrin â hyn	7
Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dal heb fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol, a'u bod yn cyd-fynd â'r llwyth achosion	8
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ei allu i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn systematig, ac mae sawl fforwm yn bodoli i gefnogi cyfathrebu proffesiynol a gweithredol	9
Materion i ymdrin â hwy	10
Atodiadau	
Dull archwilio	11
Cyflwyno'r prif ganfyddiadau	13

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Mae nyrsys ardal ymhlith prif ddarparwyr gofal yn y gymuned. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld â darparu gofal i gleifion yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain. Un o rolau eraill nyrsys ardal yw gweithio gyda chleifion a'u perthnasau i'w helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi cael eu derbyn neu ddychwelyd i'r ysbyty heb fod angen.
2. Gall llwyth achosion nyrs ardal gynnwys ystod oedran eang ynghyd ag amrywiaeth sylweddol o broblemau iechyd, gan gynnwys cleifion â salwch terfynol. Pobl oedrannus a bregus yw rhan helaeth o'r cleifion. Hyd y gellir rhagweld, mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o gynyddu yn sgil poblogaeth oedrannus sy'n tyfu, arosiadau byrrach yn yr ysbyty a'r ymdrech i drin mwy o gleifion, a chanddynt anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn lle'r ysbyty. Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd), disgwylir cynnydd o 55 y cant yn nifer y bobl 65 oed a hŷn erbyn 2036¹ a rhagwelir cynnydd o 147 y cant yn nifer y bobl oedrannus iawn, sy'n 85 oed a hŷn.
3. Mae model rheoli cyflyrau cronig Llywodraeth Cymru² a'i strategaeth gofal cychwynnol a chymunedol³ yn nodi'r angen i newid cydbwysedd gwasanaethau ar sail system gyfan ac i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau cymunedol. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael tîm amlddisgyblaethol integredig sy'n canolbwyntio ar gydgyssylltu gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd lleol i unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.
4. Yn ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig⁴ canfuwyd y canlynol:
 - mai ychydig o fyrddau iechyd sydd â dealltwriaeth dda o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan ei gwneud hi'n anodd targedu hyfforddiant a datblygiad er mwyn symud gofal tua'r gymuned;
 - bod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti sydd ei angen i 'symud' gofal i'r gymuned a chydgyssylltu gofal; ac
 - y gellid cydgysylltu gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf bregus yn well, gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gofal, neu ofal tebyg ar gyfer y garfan hon o gleifion.

¹ Llywodraeth Cymru, *Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013)*, 2013 (Saesneg yn unig)

² Llywodraeth Cymru, *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, 2007

³ Llywodraeth Cymru, *Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi*, 2010

⁴ Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad*, Mawrth 2014

-
5. I fodloni'r heriau hyn, bydd angen gweithlu wedi'i gydgysylltu'n briodol, a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, sydd wedi'i roi ar waith mewn modd effeithiol er mwyn darparu gofal yn y gymuned. Gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrso ardal a sut mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol
 6. Yn ystod 2013, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o wasanaethau nyrso ardal y Bwrdd Iechyd. Nod yr archwiliad oedd canfod a yw'r gwasanaeth nyrso ardal wedi'i sefydlu'n effeithiol er mwyn bodloni'r galw am ofal yn y gymuned. Yn ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014, casglwyd bod amrywio anesboniadwy yn yr adnoddau a'r llwyth gwaith, ynghyd â gwendidau mewn systemau gwybodaeth, a bod hynny'n ei gwneud hi'n anodd asesu perfformiad, capasiti a'r galw. Lluniodd y Bwrdd Iechyd ymateb gan reolwyr a chynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad, ac mae gwaith ar y gweill i'w gweithredu erbyn mis Gorffennaf 2015.
 7. Yn ystod 2014, cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygiad Cymru gyfan o wasanaethau nyrso ardal yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a gasglwyd o'r holl fyrddau iechyd. Cymerodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ran yn yr archwiliad hwn er mwyn diweddarau gwybodaeth archwilio 2013 a manteisio ar ddata y gellid eu cymharu drwy Gymru gyfan. Roedd hefyd yn gyfle i asesu cynnydd yn erbyn canfyddiadau blaenorol. Nod yr archwiliad, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2014 a mis Awst 2014, oedd ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrso ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?'

Nodir ein dull archwilio yn Atodiad 1.

Ein prif ganfyddiadau

8. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrso ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol, prif gasgliad yr adolygiad yw bod llawer o'r problemau a nodwyd yn flaenorol yn bodoli o hyd, ac nid yw'r gwelliant yn digwydd yn ddigon cyflym. Yn benodol:
 - Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned, ac mae'r trefniadau rheoli adrannol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid ydyw eto wedi diffinio cylch gorchwyl a gofynion y gwasanaeth nyrso ardal o ran ei weithlu cymunedol.
 - Mae deall y galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn her gan ei gwneud hi'n anodd asesu a oes digon o adnoddau i fodloni'r angen, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ymdrin â hyn.
 - Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dal heb fod yn sicr bod staff yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol, a'u bod yn cyd-fynd â'r llwyth achosion.

-
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i gynyddu ei allu i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn systematig, ac mae sawl fforwm yn bodoli i gefnogi cyfathrebu proffesiynol a gweithredol.
9. Ceir crynodeb o'n prif ganfyddiadau yn y tabl isod. Nodir y dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r canfyddiadau hyn yn **Atodiad 2** ar ffurf cyflwyniad tebyg i'r un a roddwyd i uwch reolwyr ar 19 Ionawr 2015. Bydd y setiau data sy'n sail i ganfyddiadau'r archwiliad yn cael eu rhannu â'r Bwrdd lechyd.

Rhan 1 - Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned, ac mae'r trefniadau rheoli adrannol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid ydyw eto wedi diffinio cylch gwaith a gofynion y gwasanaeth nyrsio ardal o ran ei weithlu cymunedol.

Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth lefel uchel i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned ac, i gefnogi'r weledigaeth, mae'n symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig

- Mae'r Bwrdd lechyd yn gwybod ei fod yn wynebu sawl her mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio, a'r galw tebygol am wasanaethau yn y dyfodol wrth geisio ail-lunio gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol cyfredol.
- Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd lechyd, nodir ei ymrwymiad i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau gofal cychwynnol a chymunedol, ond nid oes digon o fanylion ynghylch sut y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.
- Yn rhan o Dyfodol Clinigol, mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu cynyddu'n rhannol nifer y cleifion y gofelir amdanynt yn y gymuned yn rhan o gynllun integreiddio ehangach, gan gadw ffocws nyrsio ardal ar yr un pryd.
- Er bod enghreifftiau i'w cael o integreiddio gwasanaethau, mae'r rhain yn amrywio o ran diffiniad, ymarfer a chyflenwi.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod bylchau yn yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrsio cymunedol sy'n addas i'r diben.

Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi diffinio cylch gwaith na gofynion gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y gwasanaeth nyrsio cymunedol newydd integredig.

- Mae'r Bwrdd lechyd ar hyn o bryd yn gweithio i ddiffinio'r gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys mwy o integreiddio rhwng y Gwasanaeth Nyrsio Ardal a'r Timau Adnodd Cymunedol.
- Cafwyd llai o gynnydd na'r disgwyl wrth ddiweddarau'r fanyleb Nyrsio Ardal er mwyn cymryd ystyriaeth o'r angen i integreiddio'r timau nyrsio ardal a'r timau adnodd cymunedol.
- Mae cynllun busnes integredig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol yn amlinellu'r heriau o ran gweithredu, ond nid oes cynlluniau gweithlu cynhwysfawr yn sail ar ei gyfer.

Mae'r strwythur is-adrannol yn darparu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaeth nyrsio ardal, ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

- Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal oddi mewn i'r Is-adran Gwasanaethau Cymunedol, ac mae'r trefniadau rheoli'n gyson ar draws yr ardaloedd.
- Mae'r llinellau atebolrwydd rheolaethol yn glir, gyda nyrsys arweiniol yn yr ardaloedd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth.
- Er bod un arweinydd proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal yn absennol, adroddir bod y trefniadau'n gweithio'n dda ar lefel weithredol.

Rhan 2 - Mae deall y galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn her gan ei gwneud hi'n anodd asesu a oes digon o adnoddau i fodloni'r angen, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

Ni cheir rhyw lawer o ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaethau nyrsio ardal, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes unrhyw adolygiad systematig o'r galw ac o lwythi gwaith ar raddfa'r sefydliad; nid yw'r systemau cyfredol yn ddigonol ar gyfer anghenion y Bwrdd, ac mae sawl risg yn gysylltiedig â hwy, er bod cynlluniau bellach ar droed am ddatrysiad dros dro ar gyfer yr holl fwrdd iechyd.
- Yn ardal Caerffili, cynhaliwyd archwiliad untro i wella'r ddealltwriaeth o'r llwyth achosion.
- Yn gyffredin â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, ni ddefnyddir unrhyw offeryn safonedig i fesur dibyniaeth cleifion ar hyn o bryd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i offeryn cenedlaethol gael ei ddatblygu.
- Ceir enghreifftiau o gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i nodi a goleuo anghenion y cleifion mwyaf cymhleth yn y llwyth achosion.

Mae rhai camau wedi cael eu cymryd yn lleol i wella'r rheolaeth ar y galw, ond mae angen mwy o welliannau i'r rheolaeth ar y galw ar raddfa'r bwrdd iechyd.

- Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau nac ail-lansio ei feini prawf atgyfeirio eto, gan y bydd yn rhan o fanyleb ddiwygiedig y gwasanaeth nyrsio ardal.
- Mae grŵp gorchwyl a gorffen, y Grŵp Hysbyseg Cymunedol, wedi cael ei sefydlu i oleuo a gwella gwybodaeth rheoli'r galw.
- Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Rhwydweithiau Cymunedol Cymdogaeth i gael dealltwriaeth o amrywio yn y defnydd o'r gwasanaeth nyrsio ardal.
- Dengys canfyddiadau'r archwiliad fod cyfran fwy o staff nyrsio ardal o'r farn fod gwybodaeth atgyfeirio yn ddigonol, ond mae peth gwybodaeth sylfaenol yn dal i fod ar goll.
- Mae rhai ardaloedd bellach yn fwy rhagweithiol wrth reoli'r galw, ac wrth herio'r atgyfeiriadau ddaw i law.

Mae'n dal yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, er gwaetha'r cynnydd parhaus yn niferoedd y gweithlu.

- Mae rhai anghysondebau'n parhau rhwng y ffynonellau amrywiol o ddata am y gweithlu.
- Ers 2011, mae'r gweithlu nyrsio ardal wedi cynyddu ar gyfradd uwch nag yn rhannau eraill o Gymru.
- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig yn is na chfyfartaledd Cymru.
- Ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan y ceir y gyfran uchaf yng Nghymru o nyrsys staff cymunedol o gymharu â byrddau iechyd eraill, tra bo'r gyfra o weithwyr cymorth gofal iechyd gyda'r isaf.
- Yn wahanol i'r rhan fwyaf o wasanaethau nyrsio ardal yng Nghymru, mae gan y timau gefnogaeth weinyddol.

Rhan 2 - Mae deall y galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn her gan ei gwneud hi'n anodd asesu a oes digon o adnoddau i fodloni'r angen, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol i'w wasanaeth nyrsio ardal, ond ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â lefelau isel o gydymffurfio â'r broses arfarnu, a chyda pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.

- Nid oedd llawer o'r staff wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf.
- Mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael ar y cyfan, gyda lefelau isel iawn o gydymffurfio mewn rhai meysydd, fel codi a symud, dadebru ac atal a rheoli heintiau.
- Mae'r gyfran o staff nyrsio cofrestredig a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer hyfforddiant ychwanegol
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i ystyried sut y gall wneud defnydd mwy effeithiol o weithwyr cymorth iechyd, ac i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant seiliedig ar gymhwysedd ar eu cyfer.
- Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal cofrestredig fel arfer yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer.

Rhan 3 - Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dal heb fod yn sicr bod staff yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol a'u bod yn cyd-fynd â'r llwyth achosion.

O gymharu â byrddau iechyd eraill, mae staff yn treulio cyfran uwch o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, ond ceir amrywio anesboniadwy o hyd yn y modd y caiff timau nyrsio ardal eu rhoi ar waith yn lleol.

- Y gyfran o amser a oedd yn cael ei dreulio yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion oedd yr uchaf yng Nghymru, ond mae gwahaniaethau mawr o hyd rhwng y gwahanol dimau, o fewn yr ardaloedd a rhyngddynt, ac o fewn ac ar draws y graddfeydd.
- Ar y cyfan mae'r amser teithio ar gyfer ymweliadau'n gysylltiedig â chleifion yr un peth â chyfartaledd Cymru.
- Ymddengys fod y gymysgedd o staff o raddfeydd gwahanol a ddefnyddiwyd yn ystod yr wythnos yn gost-effeithiol, gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio ar ddydd Llun i ddydd Gwener yn bennaf.

Mae'r llwythi achosion yn parhau i fod wedi'u dosbarthu'n anwastad rhwng gwahanol dimau nyrsio ardal, ac ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei adnoddau nyrsio ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion

- Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul nyrs ardal, ddwy i dair gwaith yn fwy mewn rhai timau o nyrsys ardal, o gymharu â thimau eraill.
- Cynhaliodd staff nyrsio ardal fwy na 10,800 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad; fodd bynnag, cafwyd llawer o amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin.
- Ar sail yr ymarfer dyddiaduron, gweithiodd dau o bob tri aelod o staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract.

Rhan 3 - Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu bod y Bwrdd lechyd yn dal heb fod yn sicr bod staff yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol a'u bod yn cyd-fynd â'r llwyth achosion.

Er y cafwyd rhai gwelliannau, dengys canfyddiadau archwilio fod angen gwneud mwy i wella'r rheolaeth ar y llwyth achosion.

- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd, a gall nifer yr ymweliadau â chleifion ar unrhyw ddiwrnod arbennig fod yn ddiderfyn.
- Mae tîmau erbyn hyn yn mynd ati i 'dacluso' eu llwythi achosion yn fisol gan ddyrannu amser 'di-darf' i reolwyr tîmau i graffu a rheoli llwythi achosion.
- Mae dau dîm yn darparu gofal i gleifion y tu allan i ffiniau'r Bwrdd lechyd, ac mae'r ddau'n wynebu nifer o heriau wrth gydgyssylltu gwasanaethau i'r cleifion hyn.
- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartref eu hunain, er bod rhai arweinwyr tîm o'r farn nad yw'r holl gleifion hyn yn gleifion sy'n 'gaeth i'w cartref'.
- Mae staff yn parhau i ddweud wrthym nad yw cleifion gartref pan fyddant yn ymweld.

Rhan 4 - Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i gynyddu ei allu i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn systematig, ac mae sawl fforwm yn bodoli i gefnogi cyfathrebu proffesiynol a gweithredol.

Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun i ymdrin â'r wybodaeth y mae arno ei hangen er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad, gan gynnwys adborth gan gleifion.

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod ei systemau gwybodaeth presennol yn annigonol ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad, a chan nad oes system wybodaeth gymunedol ar gael i Gymru gyfan, mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu system wedi'i chynllunio'n arbennig i ymdrin â'i anghenion o ran gwybodaeth yn y tymor byr i'r tymor canolog.
- Yng nghynllun busnes integredig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol, cyfeiriwyd at ddatblygu trefniadau cadarn a chynhwysfawr i reoli perfformiad fel maes blaenoriaeth allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r camau a gynlluniwyd i fod i gael eu cwblhau hyd fis Gorffennaf 2015.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi y dylai fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion diwygiedig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol gefnogi dull mwy strwythuredig a chyson o roi sicrwydd, ond bydd angen profi hyn.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r bylchau mewn adborth gan gleifion yn y gymuned.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn chwarae rhan weithgar er mwyn datblygu gwasanaethau nyrsio ardal ledled Cymru ac mae'n gweithio i gryfhau cyfathrebu mewnol ac allanol y gwasanaeth cymunedol.
- Mae uwch staff nyrsio yn cyfrannu at fforymau Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrsio ardal.
- Ceir fforwm uwch nyrsys cymunedol ar gyfer y bwrdd lechyd cyfan sy'n cyfarfod yn rheolaidd, a bydd gwybodaeth o fforymau Cymru gyfan a fforymau lleol yn cael eu rhannu â'r tîmau drwy gyfarfodydd briffio rheolaidd.
- Yn flaenorol, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal i arweinwyr tîm o'r holl fwrdd lechyd, ond peidiodd y cyfarfodydd hyn oherwydd yr ymrwymadau teithio ac amser; yn lle hynny, bydd arweinwyr tîm yn cyfarfod fel grŵp ar raddfa leol.
- Mae'r nyrs weithredol yn cynnal cyfarfodydd bob chwarter â'r holl arweinwyr tîm ac uwch aelodau staff cymunedol i drafod materion proffesiynol, ac mae cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion yn cael eu cynnal yn fisol ag arweinwyr tîm cymunedol i drafod materion gweithredol.

-
- Caiff staff nyrsio ardal, waeth beth fo'u gradd, fynd i un o ddau fforwm sy'n cyfarfod bob yn eilfis i drafod materion sy'n ymwneud yn benodol â nyrsio ardal.

Materion i ymdrin â hwy

10. Yn ein hadroddiad archwilio diwethaf ar nyrsio ardal, gwnaed sawl argymhelliad thematig. Mae pob argymhelliad yn dal i fod yn berthnasol, ac mae gwaith ar y gweill o fewn y Bwrdd lechyd i ymdrin â hwy. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod camau i ymdrin â'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith erbyn mis Gorffennaf 2015, sef y dyddiad cytunedig, fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu.

Atodiad 1

Dull archwilio

Gofynnai'r archwiliad y cwestiwn canlynol: A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned. Yn benodol, archwiliwyd:

- a oes strategaeth glir ar gyfer darparu'r gwasanaeth nyrsio ardal;
- a oes digon o adnoddau nyrsio ardal er mwyn bodloni'r galw;
- a yw'r staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol; ac
- a oes trefniadau effeithiol i fonitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau nyrsio ardal.

Cynhaliom sawl gweithgaredd archwilio rhwng mis Mawrth a mis Awst 2014 er mwyn ateb y cwestiynau hyn. Cynhaliwyd pob gweithgaredd archwilio, a ddisgrifir yn y tabl isod, mewn wythnosau dilynol er mwyn lleihau effaith y naill weithgaredd ar y llall.

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
1. Arolwg o'r timau	<p>Gofynnwyd i arweinwyr timau unigol lenwi holiadur byr am eu tîm. Yn yr arolwg, gofynnwyd am wybodaeth am niferoedd y gweithlu, y mathau o weithgareddau gofal yr oedd y staff wedi'u hyfforddi i'w darparu ac a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, nifer y staff a chanddynt gymwysterau ymarferydd arbenigol, cyfranogiad mewn goruchwyliaeth glinigol ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant.</p> <p>Cwblhawyd a derbyniwyd dau ddeg wyth o arolygon.</p>
2. Dyddiadur llwyth gwaith unigol	<p>Gofynnwyd i'r holl staff nyrsio, a oedd yn gweithio fel aelod o dîm nyrsio ardal ar adeg yr archwiliad, gadw dyddiadur saith diwrnod o'u gweithgarwch rhwng 7 Ebrill ac 13 Ebrill 2014. Roedd y dyddiadur yn cofnodi'r amser yr oedd aelodau unigol o staff yn ei dreulio ar wahanol fathau o weithgarwch, a nifer a lleoliad y cysylltiadau â chleifion.</p> <p>Cwblhawyd a derbyniwyd 306 o ddyddiaduron o'r wythnos dan sylw gan staff a weithiai i'r gwasanaeth nyrsio ardal, gan gynnwys staff banc, myfyrwyr cyn cofrestru ar eu trydedd flwyddyn a myfyrwyr ôl-gofrestru. Amcangyfrifwn fod 94 y cant o'r staff a oedd ar yr amserlen waith yn ystod yr wythnos dan sylw wedi'u cynnwys yn yr arolwg dyddiaduron.</p>
3. Arolwg rhagolygol o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth	<p>Gofynnwyd i'r timau nyrsio ardal lenwi holiadur byr am bob atgyfeiriad a dderbyniodd y tîm ac a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn, rhwng 31 Mawrth a 6 Ebrill 2014. Gofynnai'r arolwg am wybodaeth ynghylch nifer a natur yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaethau nyrsio ardal, gan gynnwys ansawdd yr wybodaeth atgyfeirio a phriodolrwydd tybiedig yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Llenwodd pob tîm holiadur ar gyfer pob atgyfeiriad newydd.</p> <p>Cwblhawyd a derbyniwyd 605 o arolygon.</p>

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
4. Arolwg o'r llwyth achosion	Ni wnaethom ailadrodd yr arolwg llwyth achosion yn rhan o archwiliad 2014.
5. Arolwg o'r Bwrdd Iechyd	Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd lenwi holiadur byr, a ofynnai am wybodaeth ynglŷn â model y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal, tueddiadau yn niferoedd y gweithlu a gwariant ar wasanaethau, gwybodaeth am gydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad, a hyfforddiant statudol a gorfodol ar drefniadau i reoli perfformiad, gan gynnwys agweddau ar ansawdd a diogelwch.
6. Gweithdai gydag arweinwyr tîm a rheolwyr	Rhannwyd canfyddiadau'r ymarferion casglu data ag arweinwyr tîm a rheolwyr mewn dau weithdy adborth a gynhaliwyd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2014. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i'r arweinwyr tîm gynnig sylwadau ynghylch dilysrwydd y canfyddiadau.
7. Gweithdai gyda'r uwch dîm rheoli nyrsys a'r cyfarwyddwyr gweithredol.	Cyfarfuom ag uwch reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol yn ystod mis Ionawr 2015 er mwyn rhannu ein casgliadau cychwynnol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad.

Atodiad 2

Cyflwyno'r prif ganfyddiadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



Adolygiad Nyrsgo Ardal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Cefndir 1



- Staff nyrsio ardal yw un o'r prif ddarparwyr gofal iechyd yng nghartrefi cleifion.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o godi:
 - mae deuparth y boblogaeth yng Nghymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn adrodd bod ganddynt o leiaf un cyflwr cronig, tra bod gan draean ohonynt sawl cyflwr cronig; ac
 - mae pobl yn byw'n hirach a rhagwelir y ceir cynnydd o 55% yn nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan erbyn 2036, a chynnydd o 147% yn nifer y bobl oedranus iawn, hy. rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn.
- Yng ngwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflyrau cronig, canfuwyd yn genedlaethol:
 - mai ychydig o fyrddau iechyd oedd â dealltwriaeth o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan olygu ei bod hi'n anodd targedu hyfforddiant er mwyn symud gofal tua'r gymuned;
 - fod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti i symud a chydgysylltu gofal; ac
 - y gellid cydgysylltu gwasanaethau'n well gan fod llawer o wasanaethau, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg i'r un garfan o gleifion.
- Er mwyn cyflenwi gofal yn nes at adref, mae angen gweithlu cymunedol a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, a rhoi'r gweithlu hwnnw ar waith mewn modd effeithiol.
- Gyda'r cynnydd yn y galw a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrsys ardal a sut mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 2

Cefndir 2



Yn 2013, cynhaliom adolygiad o'r gwasanaeth nyrsio ardal. Nod yr archwiliad oedd canfod a oedd y gwasanaeth Nyrsio Ardal wedi'i sefydlu'n effeithiol i fodloni'r galw am ofal yn y gymuned. Daethom i'r casgliadau canlynol:

- Bod amrywio anesboniadwy yn adnoddau a llwythi gwaith y gwasanaeth nyrsio ardal, ynghyd â gwendidau mewn systemau gwybodaeth. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu perfformiad, capasiti a'r galw, oherwydd:
 - roedd rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i hyrwyddo dealltwriaeth well o wasanaethau nyrsio ardal, ond nid oedd ffiniau'r rôl wedi'u deall bob amser, ac nid oedd cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu.
 - roedd y diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r galw yn ei gwneud hi'n anodd asesu a oedd digon o gapasiti, ac yn arwain at amrywio sylweddol o ran adnoddau a diffyg cydbwysedd rhwng llwythi gwaith y timau.
 - roedd y Bwrdd lechyd wedi datblygu siartiau llif i wella'r atgyfeiriadau i'r nyrsys ardal, ond roedd problemau'n parhau gydag ansawdd a phriodolrwydd atgyfeiriadau; a
 - chan nad oedd system wybodaeth ar gael, nid oedd y Bwrdd lechyd yn gallu cynnal asesiad effeithiol o'r galw a chanfod beth oedd gofynion y gweithlu nyrsio ardal i oleuo'r defnydd o staff.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ymdrin â'r materion a godwyd yn yr archwiliad gwreiddiol hwnnw.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 3

Cwestiwn archwilio



Yn ystod 2014 cynhaliom adolygiad o wasanaethau nyrsio ardal ledled Cymru. Cymerodd y Bwrdd lechyd ran yn yr archwiliad hwn i ddiweddarau gwybodaeth archwilio 2013 a manteisio ar ddata y gellid eu cymharu ar raddfa Cymru gyfan.

Ar gyfer archwiliad 2014 gofynnwyd:

A yw'r Bwrdd lechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?

- A oes strategaeth glir i'r gwasanaeth nyrsio ardal?
- A oes digon o adnoddau nyrsio ardal i fodloni'r galw?
- A yw'r staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol?
- A oes trefniadau effeithiol i fonitro a gwella'r gwasanaeth nyrsio ardal?

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 4

Casgliad cyffredinol



Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrzio ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol, mae llawer o'r problemau a nodwyd yn flaenorol yn bodoli o hyd, ac nid yw'r gwelliant yn digwydd yn ddigon cyflym.

Agweddau strategol a chynllunio



Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned, ac mae'r trefniadau rheoli adrannol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid ydyw eto wedi diffinio cylch gorchwyl a gofynion gweithlu cymunedol y gwasanaeth nyrzio ardal.

Strategaeth



Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth lefel uchel i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned ac, i gefnogi'r weledigaeth hon, mae'n symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwybod ei fod yn wynebu sawl her mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio, a'r galw tebygol am wasanaethau yn y dyfodol wrth geisio ail-lunio gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol cyfredol.
- Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, nodir ei ymrwymiad i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau gofal cychwynnol a chymunedol, ond nid oes digon o fanylion ynghylch sut y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.
- Yn rhan o Dyfodol Clinigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu'n raddol nifer y cleifion y gofelir amdanynt yn y gymuned yn rhan o gynllun integreiddio ehangach, gan gadw'r ffocws nyrsio ardal ar yr un pryd.
- Er bod enghreifftiau i'w cael o integreiddio gwasanaethau, mae'r rhain yn amrywio o ran diffiniad, ymarfer a chyflenwi.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod bylchau yn yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrsio cymunedol sy'n addas i'r diben.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 7

Cynlluniau gweithredol



Nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi diffinio cylch gwaith na gofynion gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y gwasanaeth nyrsio cymunedol newydd integredig.

- Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio i ddiffinio'r gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys mwy o integreiddio rhwng y Gwasanaeth Nyrsio Ardal a'r Timau Adnodd Cymunedol:
 - mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu ac egluro rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol;
 - Y bwriad yw y bydd staff nyrsio ardal a'r Timau Adnodd Cymunedol (TACau) yn cadw eu 'hunaniaeth'.
- Cafwyd llai o gynnydd na'r disgwyl wrth ddiweddarau'r fanyleb Nyrsio Ardal er mwyn cymryd i ystyriaeth yr angen i integreiddio'r timau nyrsio ardal a'r timau adnodd cymunedol:
 - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd manyleb dros dro ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal ar waith erbyn mis Gorffennaf 2015. Erbyn mis Gorffennaf 2016, bydd manyleb gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaeth ardal a gwasanaeth TAC integredig wedi'i rhoi ar waith.
- Mae cynllun busnes integredig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol yn amlinellu'r heriau o ran gweithredu, ond ni cheir cynlluniau gweithlu cynhwysfawr yn sail ar ei gyfer.
 - nid yw'r Bwrdd Iechyd hyd yma wedi nodi gofynion y gweithlu ar gyfer nyrsio ardal a gwasanaethau eraill cymunedol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 8

Llinellau atebolwydd a'r strwythur rheoli



Mae'r strwythur is-adrannol yn darparu llinellau atebolwydd rheolaethol a phroffesiynol clir i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaeth nyrsio ardal, ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

- Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal oddi mewn i'r Is-adran Gwasanaethau Cymunedol, ac mae'r trefniadau rheoli'n gyson ar draws yr ardaloedd.
- Mae'r llinellau atebolwydd rheolaethol yn glir, gyda nyrsys arweiniol yn yr ardaloedd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth.
- Er bod un arweinydd proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal yn absennol, adroddir bod y trefniadau'n gweithio'n dda ar lefel weithredol:
 - mae'r tri arweinydd nyrsio yn yr ardaloedd yn adrodd wrth gyfarwyddwr yr is-adran ar faterion rheoli, ac yn adrodd wrth y nyrs weithredol ar faterion proffesiynol; ac
 - yn ôl yr uwch nyrsys gweithredol arweiniol, mae'r trefniadau'n gweithio'n dda.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 9

Adnoddau i fodloni'r galw am y gwasanaeth



Mae deall y galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn her gan ei gwneud hi'n anodd asesu a oes digon o adnoddau i fodloni'r angen, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ymdrin â hyn.

Deall y galw



Ni cheir rhyw lawer o ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaethau nyrsio ardal, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes unrhyw adolygiad systematig o'r galw ac o lwythi gwaith ar raddfa'r sefydliad; nid yw'r systemau presennol yn ddigonol ar gyfer anghenion y Bwrdd, ac mae sawl risg yn gysylltiedig â hwy, er bod cynlluniau bellach ar droed am ddatrasiad dros dro ar gyfer yr holl Fwrdd Iechyd:
 - mae'r systemau presennol yn anghyson ac yn annigonol er mwyn cynnal adolygiadau systematig o'r llwyth achosion; ac
 - mae system Excel yn cael ei defnyddio yn ardal Caerffili i amserlennu apwyntiadau a rhannu gwybodaeth.
- Yn ardal Caerffili, cynhaliwyd archwiliad untro i gael dealltwriaeth well o'r llwyth achosion.
- Yn gyffredin â byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, ni ddefnyddir unrhyw offeryn safonedig i fesur dibyniaeth cleifion ar hyn o bryd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i offeryn cenedlaethol gael ei ddatblygu a'i roi ar waith.
- Ceir enghreifftiau o gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes Iechyd a gofal cymdeithasol i nodi a goleuo anghenion y cleifion mwyaf cymhleth yn y llwyth achosion.

Rheoli'r galw



Mae rhai camau wedi cael eu cymryd yn lleol i wella'r rheolaeth ar y galw, ond mae angen gwelliannau pellach i'r rheolaeth ar y galw ar raddfa'r bwrdd lechyd.

- Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi diweddarau nac ail-lansio ei feini prawf atgyfeirio eto, gan y bydd y rhain yn rhan o fanyleb ddiwygiedig y gwasanaeth nyrsio ardal.
- Mae grŵp gorchwyl a gorffen, y Grŵp Hysbyseg Cymunedol, wedi cael ei sefydlu i oleuo a gwella gwybodaeth rheoli'r galw:
 - mae dau gynllun peilot ar wahân yn cael eu cynnal i oleuo'r gwaith hwn.
- Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Rhwydweithiau Cymunedol Cymdogaeth i gael dealltwriaeth o amrywio yn y defnydd o'r gwasanaeth nyrsio ardal.
- Dengys canfyddiadau'r archwiliad fod cyfran fwy o staff nyrsio ardal o'r fam fod gwybodaeth atgyfeirio yn ddigonol, ond mae peth gwybodaeth sylfaenol yn dal i fod ar goll.
- Mae rhai timau bellach yn fwy rhagweithiol wrth reoli'r galw, ac wrth herio'r atgyfeiriadau ddaw i law.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 12

Rheoli'r galw



Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio (i):

Ar adeg ein archwiliad, cafwyd 605 o atgyfeiriadau. Roedd y nifer a gafwyd yn amrywio rhwng 2 a 58 fesul tîm, sef cyfartaledd o 22 o atgyfeiriadau fesul tîm yn ystod yr wythnos dan sylw.

- Ar ddiwrnodiau gwaith y ceir y mwyaf o alw am wasanaethau nyrsio ardal, o fesur yn ôl nifer yr atgyfeiriadau:
 - Daeth bron yr holl atgyfeiriadau a gafwyd i law ar ddiwrnodiau gwaith, ac ychydig iawn (tri y cant) a gafwyd ar y penwythnos. Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r hyn a welwyd yng nghanfyddiadau'r archwiliad blaenorol, lle cafwyd y mwyaf o alwadau ar ddydd Llun. Mae hyn er gwaethaf canfyddiad arweinwyr tîm bod atgyfeiriadau'n cyrraedd penllanw ar brynhawniau Gwener.
- Ysgogir llawer o'r galw am ofal nyrsio ardal yn sgil atgyfeiriadau o feddygfeydd teulu, gyda chyfran sylweddol o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn gan gleifion neu eu cynhalwyr. Ar y cyfan, mae ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn debyg i'r archwiliad blaenorol, er bod patrwm y galw wedi newid yn rhai ardaloedd:
 - er enghraifft, yn Nhorfaen mae'r galw o wardiau ysbyty bellach gryn dipyn yn uwch nag o'r blaen, ac yn uwch nag yn yr ardaloedd eraill.
- Mae dros hanner (55 y cant) yr atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sydd eisoes yn hysbys i'r staff nyrsio ardal, (ar draws Cymru roedd y ffigur yn amrywio rhwng 36 y cant a 76 y cant).

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 13

Rheoli'r galw



Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio (ii):

- Roedd ychydig dros draean o'r holl atgyfeiriadau yn geisiadau i dynnu gwaed, a chyfran uwch ar gyfer cleifion a oedd eisoes yn hysbys i'r gwasanaeth. Mewn byrddau iechyd, roedd y ffigur hwn yn amrywio rhwng 25 y cant a 48 y cant.
- Tybiwyd bod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau (91 y cant) yn rhai priodol, ond roedd amrywiadau rhwng ardaloedd; ar draws Cymru, roedd y ffigur hwn yn amrywio rhwng 76 y cant a 98 y cant:
 - tybiwyd bod nifer fach (pedwar o'r 74) o'r atgyfeiriadau yn amhriodol, ond arweiniodd y rhain at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf, serch hynny.
- Derbyniodd ychydig dros hanner (53 y cant) y cleifion ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf,
 - arweiniodd cyfran fechan (18 y cant) o'r atgyfeiriadau at ymweliad untro; ym mwy na chwarter yr achosion (29 y cant), nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r angen am ofal parhaus.
- Ystyriwyd bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu ar gyfer deuparth (68 y cant) yr atgyfeiriadau, sy'n welliant o gymharu â 2013, pan ystyriwyd mai 58% o wybodaeth atgyfeirio oedd yn ddigonol. Er gwaetha'r canfyddiad o welliant, mae peth gwybodaeth sylfaenol yn dal i fod ar goll. Dim ond cyfran fechan (pump y cant) o atgyfeiriadau sydd ar ffurf ysgrifenedig, felly mae'n bosibl bod hyn yn amharu ar ansawdd yr wybodaeth.
- Cafodd cleifion eu gweld yn brydlon, gyda bron tri o bob pump (57 y cant) yn cael eu 'gweld' ar yr un diwrnod ag y derbyniwyd yr atgyfeiriad.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 14

Rheoli'r galw

Er bod llawer o'r galw yn dod o bractisau meddygon teulu, mae patrymau'r galw yn amrywio rhwng y gwahanol ardaloedd. Mae patrwm y galw mewn rhai ardaloedd wedi newid ers ein harchwiliad blaenorol.


Ardal	Cyfran (%) y cyfeiriadau o wahanol ffynonellau:							
	Meddyg Teulu		Staff ward		Ei hunan neu berthynas/gynhaliwr		Arall	
	2013	2014	2013	2014	2013	2014	2013	2014
Blaenau Gwent	37	43	40	30	7	22	17	5
Caerffili	59	58	18	17	16	18	6	7
Sir Fynwy	38	39	18	31	24	20	20	10
Casnewydd	35	37	19	14	23	42	22	7
Torfaen	58	41	27	43	15	5	0	11
Aneurin Bevan	44	44	20	22	20	27	15	7

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 15

Rheoli'r galw

Roedd mwy na thraean o'r holl atgyfeiriadau yn geisiadau i dynnu gwaed, a chyfran uwch o'r atgyfeiriadau hyn ar gyfer cleifion a oedd eisoes yn hysbys i'r gwasanaeth.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 16

Rheoli'r galw

Er bod cyfran fwy o staff nyrsio ardal o'r farn fod gwybodaeth atgyfeirio'n ddigonol ar y cyfan, mae peth o'r wybodaeth sylfaenol yn dal i fod ar goll.

Cyfran (%) yr atgyfeiriadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:	2013	2014
brys yr atgyfeiriad?	72	78
hanes meddygol neu ddiagnosis?	60	60
a fyddai angen cyfarpar neu orchuddion?	51	43
a yw'r claf yn byw ei ben ei hun?	35	39
sut y byddech yn cael mynediad i gartref y claf?	35	39
a oes gan y claf gynhaliwr?	29	33
a oes gweithwyr ieched eraill yn ymwneud â gofal y claf?	23	22
a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â gofal y claf?	22	17
a yw gwasanaethau gwirfoddol yn ymwneud â gofal y claf?	9	9

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 17

Yr adnoddau sydd ar gael (1)



Mae'n dal yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, er gw aetha'r cynnydd parhaus yn niferoedd y gweithlu.

- Mae rhai anghysondebau'n parhau rhwng y ffynonellau amrywiol o ddata am y gweithlu:
 - fodd bynnag, gallwn fod yn hyderus wrth gymharu tueddiadau'r gweithlu rhwng 2011 a 2013.
- Ers 2011, mae'r gweithlu nyrsio ardal wedi cynyddu ar gyfradd uwch nag yn rhannau eraill o Gymru:
 - Cafwyd 7.8 y cant o gynnydd yn y gweithlu nyrsio ardal ers 2011. Mewn mannau eraill yng Nghymru, cafwyd cynnydd bach gyda niferoedd y gweithlu yn gymharol ddigyfnewid mewn rhai byrddau iechyd, ac wedi gostwng mewn byrddau iechyd eraill.
 - Mae'r gymysgedd o raddau wedi newid, gyda gostyngiad yn niferoedd gweithwyr Band 7 a 6 a chynnydd cyfatebol yn nifer y gweithwyr Band 5 a gweithwyr cymorth gofal iechyd.
- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig yn is na chyfartaledd Cymru:
 - yn 2014, yr oedd 2.6 aelod o staff nyrsio ardal CALI fesul 1,000 o gleifion cofretredig 65 oed a hŷn yn Aneurin Bevan, o gymharu â 2.8 aelod o staff CALI ledled Cymru.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 18

Yr adnoddau sydd ar gael (2)




Parhad

- Ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan y ceir y gyfran uchaf yng Nghymru o staff nyrsio cymunedol o gymharu â byrddau iechyd eraill, tra bo'r gyfran o weithwyr cymorth gofal iechyd gyda'r isaf:
 - ar draws y gwasanaeth nyrsio ardal, mae un o bob deg aelod o staff yn weithwyr cymorth gofal iechyd, ond mae hyn yn amrywio i raddau amlwg o fewn ardaloedd a rhyngddynt.
 - mae arweinwyr tîm yn cael cyfle i ail-lunio'r gymysgedd o sgiliau, ac roedd llawer o arweinwyr tîm yn teimlo nad oedd digon o waith i weithwyr cymorth gofal iechyd gan fod anghenion y cleifion yn troi'n fwy cymhleth.
- Yn wahanol i'r rhan fwyaf o wasanaethau nyrsio ardal yng Nghymru, mae gan y timau gefnogaeth weinyddol fel arfer:
 - staff gweinyddol ar y cyfan sy'n gyfrifol am gasglu data sydd eu hangen yn gysylltiedig â chleifion i oleuo'r 'offeryn amserlennu'.

Yr adnoddau sydd ar gael

Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig 65 oed neu'n hŷn yn is na chyfartaledd Cymru.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 20

Yr adnoddau sydd ar gael

Mae'r gweithlu nyrsio ardal yn tyfu, ond nid yw'r arweinwyr tîm yn sylwi ar y cynnydd hwn.


Graddfeydd Cyflog	2011	2013	Canran y newid (%)
Nyrs Ardal - Band 7	30.1	27.5	-9
Nyrs Ardal - Band 6	38.9	33.4	-14
Nyrs staff gymunedol - Band 5	158.3	179.3	13
Gweithiwr cymorth gofal iechyd - Band 4	8.8	11.0	25
Gweithiwr cymorth gofal iechyd - Band 3	17.2	21.9	27
Aneurin Bevan	253.2	273.1	8

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 21

Yr adnoddau sydd ar gael

Ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan y ceir y gyfran uchaf yng Nghymru o staff nyrso cymunedol o gymharu â byrddau Iechyd eraill, tra bo'r gyfran o weithwyr cymorth gofal Iechyd gyda'r isaf.




*Dywedodd arweinyddwr tîm wrthym fod eu timau'n cynnwys yr aelodau hyn o staff.

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 22

Adnoddau sydd ar gael

Ceir amrywiadau amlwg yng nghyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd o fewn ardaloedd, a rhwng ardaloedd.



Adolygiad Nyrsgio Ardal

Slaid 23

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau



Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol i'w wasanaeth nyrsio ardal, ond ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â lefelau isel o gydymffurfio â'r broses arfarnu, a chyda pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.

- Nid oedd llawer o'r staff wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf:
 - nid yw mwy na thraean y staff (37 y cant) wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael ar y cyfan, gyda lefelau isel iawn o gydymffurfio mewn rhai meysydd, fel codi a symud, dadebru ac atal a rheoli heintiau:
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu trothwyon cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol, ond mae'n ei chael hi'n anodd cyrraedd y trothwyon a bennwyd; ac
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried sut y mae'n blaenoriaethu hyfforddiant statudol a gorfodol yn rhan o'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 24

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau



Parhad

- Mae'r gyfran o staff nyrsio cofrestredig a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer hyfforddiant ychwanegol.
 - mae gan ychydig llai na chwarter y staff nyrsio ardal cofrestredig gymhwyster ymarferydd arbenigol, ond ceir gwahaniaethau mawr rhwng y timau (yn amrywio rhwng 0 y cant a 44 y cant); mewn tri thîm, nid oes gan yr un o'r staff gymhwyster ymarferydd arbenigol.
 - mae gan wyth y cant o'r staff nyrsio cymunedol gymhwyster ymarferydd arbenigol o gymharu â 6 y cant ledled Cymru (yn amrywio rhwng 3 y cant ac 13 y cant)
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid i'w gwneud hi'n bosibl i ôl-lenwi swyddi tra bo staff yn derbyn hyfforddiant cymhwyster ymarferydd arbenigol, ac i gefnogi cylchdro ar draws yr holl fwrdeistrefi ar gyfer y lleoliad ymarferol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i ystyried sut y gall roi gweithwyr cymorth gofal iechyd ar waith mewn modd mwy effeithiol, ac yn datblygu rhaglenni hyfforddi ar eu cyfer yn seiliedig ar gymhwysedd.
- O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal fel arfer yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer:
 - er bod gan staff fynediad at amser cyflogedig wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, adroddodd pump o'r 28 o dimau nad oeddent 'fyth' yn gallu manteisio ar hynny.

Sleid 25

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae angen gwella'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol mewn rhai meysydd, fel codi a symud, dadebru ac atal a rheoli heintiau.


Hyfforddiant statudol a gorfodol	Cyfran (%) y staff nyrsio ardal sy'n cydymffurfio â hyfforddiant
Diogelwch tân	79
Iechyd, diogelwch a lles	70
Diogelu oedolion	69
Atal a rheoli heintiau	62
Codi a symud	55
Trais ac ymddygiad ymosodol	55
Dadebru	54
Rheoli gwybodaeth	44
Diogelu plant	38
Cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol	Anhysbys

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 26

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r gyfran o staff nyrsio cofrestredig a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol yn is na chyfartaledd Cymru.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 27

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r rhan fwyaf o'r staff nyrsio cofrestredig yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant hyfforddiant ar eu cyfer.




Yn ddefnyddol, dylai'r ddau far (glas a choch) gyfateb os yw'r holl staff sydd wedi'u derbyn hyfforddiant ar sgiliau neilltuol yn gwneud defnydd o'r sgiliau hynny.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 28

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant hyfforddiant ar eu cyfer.



Yn ddefnyddiol, dylai'r ddau far (glas a choch) gyfateb os yw'r holl staff sydd wedi'u derbyn hyfforddiant ar sgiliau neilltuol yn gwneud defnydd o'r sgiliau hynny.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 29

Defnydd effeithiol



Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dal heb fod yn sicr bod staff yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol, a'u bod yn cyd-fynd â'r llwyth achosion.

Defnydd effeithiol




O gymharu â byrddau iechyd eraill, mae staff yn treulio cyfran uwch o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, ond ceir amrywio anesboniadwy o hyd yn y modd y caiff timau nyrso ardal eu rhoi ar waith yn lleol.

- Y gyfran o amser a oedd yn cael ei dreulio yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion oedd yr uchaf yng Nghymru, ond mae gwahaniaethau mawr o hyd rhwng y gwahanol dimau, o fewn yr ardaloedd a rhyngddynt, ac o fewn ac ar draws y graddfeydd:
 - treuliai staff nyrso ardal y Bwrdd Iechyd 53 y cant o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, o gymharu â 44 y cant ar draws Cymru.
 - mae'r gyfran o amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn lleihau wrth godi drwy'r lefelau uwch o staff.
 - ceir gwahaniaethau mawr yn y modd y bydd arweinwyr tîm a deiliaid llwythi achos yn treulio'u hamser.
 - er bod mwy o staff gweinyddol a chlercol i'w cael o gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae aelodau uwch o staff yn treulio cyfran fawr o amser ar dasgau gweinyddol.
- Ar y cyfan mae'r amser teithio ar gyfer ymweliadau'n gysylltiedig â chleifion yr un peth â chyfartaledd Cymru:
 - amser teithio oedd i gyfrif am 18 y cant o weithgarwch yn gysylltiedig â chleifion, gan amrywio rhwng 17 y cant a 22 y cant ar draws Cymru.
- Ymddengys fod y gymysgedd o staff o raddfeydd gwahanol a ddefnyddiwyd yn ystod yr wythnos yn gost-effeithiol, gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodiau gwaith yn bennaf.

Defnydd effeithiol

Gofal cleifion uniongyrchol sydd i gyfrif am 53 y cant o amser y staff, o gymharu â 44 y cant ar gyfer Cymru.




Gofal cleifion uniongyrchol yw cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf; mae a wnelo gofal cleifion anuniongyrchol â nodiadau cleifion, cysylltiadau ag asiantaethau eraill, teithio er mwyn ymweld â'r claf; gofal nad yw'n ymwneud â chleifion yw pob math arall o weithgarwch ee, rheoli tîm, dysgu ac addysgu, gweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol a chlinigol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 32

Defnydd effeithiol

Ceir rhai amrywiadau mawr ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd, yn y gyfran o amser a dreulir gyda chleifion, ac yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chleifion.




Adolygiad Nyrso Ardal

Slid 33

Defnydd effeithiol

Roedd yr amser teithio cyfartalog fesul cysylltiad â chlaf ddwy waith yn fwy mewn rhai timau nyrsio ardal, o gymharu â thimau eraill.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 34

Defnydd effeithiol

Mae'r gyfran o amser a dreulir gyda chleifion ac yn cyflawni gweithgarwch nad yw'n ymwneud â chleifion yn amrywio yn ôl graddfa. Ar y cyfan, mae gweithwyr Bandiau 7 yn treulio llai o amser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion a mwy o amser yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gofal cleifion.


Bandiau Cyflog	Cyfran (%) yr amser a dreulir ar:					
	ofal cleifion uniongyrchol		ofal cleifion anuniongyrchol		ofal nad yw'n ymwneud â chleifion	
	2013	2014	2013	2014	2013	2014
Bandiau 3 a 4	57.3	58	25.6	26	17.0	16
Band 5	58.2	58	27.9	26	14.0	15
Band 6	39.3	40	31.5	32	29.3	28
Band 7	23.6	20	32.9	30	43.5	50
Aneurin Bevan	52	50	29	32	19	18

Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 35

Defnydd effeithiol

Ceir gwahaniaethau mawr yn y modd y bydd arweinwyr tîm a deiliaid llwythi achos yn treulio'u hamser; ar gyfartaledd, bydd yr aelodau hyn o staff yn treulio traean (31 y cant) o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion (yn amrywio rhwng 0 y cant a 96 y cant).




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 36

Defnydd effeithiol

Roedd staff ym Mandiau 6 a 7 yn treulio 12 y cant o'u hamser yn gwneud gwaith 'gweinyddol' yn 2013 o gymharu â 10 y cant yn 2014. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau mawr rhwng aelodau unigol o staff, hyd yn oed pan fydd gan dimau gefnogaeth weinyddol.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 37

Defnydd effeithiol

Roedd staff ym mandiau 6 a 7 yn treulio saith y cant o'u hamser yn gwneud gwaith 'gweinyddol' Gofal Iechyd Parhaus yn 2013 o gymharu ag 8 y cant yn 2014. Yn rhai timau, roedd y gyfran o amser a dreuliwyd ar hyn yn llawer uwch, yn enwedig yn ardal Casnewydd.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 38

Defnydd effeithiol

Ymddengys fod y gymysgedd o staff o raddfeydd gwahanol a ddefnyddiwyd yn ystod yr wythnos yn gost-effeithiol, gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio ar ddydd Llun i ddydd Gwener yn bennaf.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 39

Paru adnoddau â'r llwyth achosion




Mae'r llwythi gwaith yn parhau i fod wedi'u rhannu'n anwastad ar draws gwahanol dimau nyrsio ardal, ac ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei adnoddau nyrsio ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion.

- Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul aelod staff nyrsio ardal, ddwy i dair gwaith yn fwy mewn rhai timau o gymharu â thimau eraill.
- Cynhaliodd staff nyrsio ardal fwy na 10,800 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad; fodd bynnag, cafwyd llawer o amrywio rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin:
 - yn debyg i gyfartaledd Cymru, cynhaliodd y timau 45 o gysylltiadau am bob aelod staff CALI, ond roedd hyn yn amrywio rhwng 31 a 63 fesul aelod staff CALI. Hyd cyfartalog pob cysylltiad oedd 26.2 munud fesul tîm (roedd hyn yn amrywio rhwng 20 a 35.4 munud fesul tîm). Cyfartaledd Cymru oedd 23 munud fesul tîm; a
 - gallai'r amrywiadau hyn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng timau mewn perthynas â dibyniaeth cleifion, ymyriadau gofal byr, y pellter a deithiwyd (llai o ymweliadau felly), lleoliadau'r gofal (ee, clinigau'n golygu bod modd gweld mwy o gleifion o bosib).
- Ar sail yr ymarfer dyddiaduron, gweithiodd dau o bob tri aelod o staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract:
 - yn ystod yr archwiliad, roedd yr amser a weithiodd y staff, ac eithrio myfyrwyr cyn ac ôl-gofrestru a staff banc, yn ychwanegol at eu horiau contract yn amrywio rhwng rhai munudau a hyd at 28 awr. Roedd hanner y rhai a oedd yn gweithio mwy na'u horiau contract yn cael eu cyflogi'n rhan-amser; a
 - Chanolrif yr oriau ychwanegol a weithiwyd oedd 2.4 awr, sydd gyfwerth â 12 aelod ychwanegol o staff CALI.

Defnydd effeithiol

Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul aelod staff CALI, ddwywaith yn fwy mewn rhai timau nyrso ardal o gymharu â thimau eraill.



Ni ddarparwyd unrhyw ddata ar faint llwythi achosion cyfredol tîm Gogledd Orllewin Casnewydd.

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 41

Rheoli'r llwyth achosion yn lleol



Er y cafwyd rhai gwelliannau, dengys canfyddiadau archwilio fod angen gwneud mwy i wella'r rheolaeth ar y llwyth achosion.

- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd, a gall nifer yr ymweliadau â chleifion ar unrhyw ddiwrnod arbennig fod yn ddiderfyn:
- Mae tîmau erbyn hyn yn mynd ati i 'dacluso' eu llwythi achosion yn fisol gan ddyrannu amser 'di-darf' i reolwyr tîmau i graffu a rheoli llwythi achosion.
 - Er enghraifft, mae cleifion nad ymwelwyd â hwythau o fewn blwyddyn yn cael eu dileu o'r llwyth achosion.
- Mae dau dîm yn darparu gofal i gleifion y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r rhain yn wynebu nifer o heriau wrth gydgyssylltu gwasanaethau i'r cleifion hyn.
- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartrefi eu hunain, er bod arweinwyr tîm o'r farn nad yw'r holl gleifion hyn yn gleifion sy'n 'gaethi i'w cartref':
 - digwyddodd mwy na phedair rhan o bump (85%) o'r cysylltiadau â chleifion yng nghartref y claf, tra cysylltwyd â 7% ohonynt dros y ffôn; ychydig o gysylltiadau (3%) a ddigwyddodd yn y clinigau. Dim ond pum tîm oedd yn darparu clinigau'n rheolaidd.
- Mae staff yn parhau i ddweud wrthym nad yw cleifion gartref pan fyddant yn ymweld:
 - Mae cyfran yr ymweliadau 'dim mynediad' heb newid ers 2013, ac roedd yr ymweliadau hyn i gyfrif am dri y cant o'r holl gysylltiadau â chleifion (gan amrywio rhwng 0 y cant a 6 y cant ar draws y tîmau). Er bod yr ymweliadau 'dim mynediad' hyn i gyfrif am lai nag un y cant o amser y staff yn ystod yr wythnos archwilio, roedd hynny'n gyfwerth â 77 o oriau neu 176 o gleifion ychwanegol.

Trefniadau ar gyfer monitro a gwella gwasanaethau



Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ei allu i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn systematig, ac mae sawl fforwm yn bodoli i gefnogi cyfathrebu proffesiynol a gweithredol.

Monitro ac adrodd ar berfformiad



Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun i ymdrin â'r wybodaeth y mae arno ei hangen er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad, gan gynnwys adborth gan gleifion.

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod ei systemau gwybodaeth presennol yn annigonol ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad, a chan nad oes system wybodaeth gymunedol ar gael i Gymru gyfan, mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu system wedi'i chynllunio'n arbennig i ymdrin â'i anghenion o ran gwybodaeth yn y tymor byr i'r tymor canolig.
- Yng nghynllun busnes integredig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol, cyfeiriwyd at ddatblygu trefniadau cadarn a chynhwysfawr i reoli perfformiad fel maes blaenoriaeth allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r camau a gynlluniwyd i fod i gael eu cwblhau hyd fis Gorffennaf 2015.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 44

Monitro ac adrodd ar berfformiad



Parhad

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y dylai fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion diwygiedig yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol gefnogi dull mwy strwythuredig a chyson o roi sicrwydd, ond bydd angen profi hyn.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r bylchau mewn adborth gan gleifion yn y gymuned.
 - yn y dyfodol, bydd archwiliad 'Hanfodion Gofal' Cymru gyfan, y cynhaliwyd peilot ar ei gyfer yn ddiweddar ar draws y gwasanaethau nyrzio ardal, yn darparu rhywfaint o wybodaeth am ansawdd a diogelwch a phrofiad y claf.
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn addasu ei ddull o ofyn am adborth gan gleifion ysbytai cymunedol ac yn cymhwyso'r dull hwn i'r gwasanaeth nyrzio ardal, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r wybodaeth hon ar ei ddangosfwrdd nyrzio ardal arfaethedig.

Adolygiad Nyrzio Ardal

Sleid 45

Nodi a rhannu arfer da



Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrzio ardal ar draws Cymru, ac mae'n gweithio i gryfhau trefniadau'r gwasanaeth cymunedol ar gyfer cyfathrebu'n fewnol ac yn allanol.

- Mae uwch staff nyrzio yn cyfrannu at fforymau Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrzio ardal.
- Ceir fforwm uwch nyrzio cymunedol ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan sy'n cyfarfod yn rheolaidd, a bydd gwybodaeth o fforymau Cymru gyfan a fforymau lleol yn cael eu rhannu â'r tîmau drwy gyfarfodydd briffio rheolaidd.
- Yn flaenorol, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal i arweinwyr tîm o'r holl fwrdd iechyd, ond peidiodd y cyfarfodydd hyn oherwydd yr ymrwymadau teithio ac amser; yn lle hynny, bydd arweinwyr tîm yn cyfarfod fel grŵp ar raddfa leol.
- Mae'r nyrzio weithredol yn cynnal cyfarfodydd bob chwarter â'r holl arweinwyr tîm ac uwch aelodau staff cymunedol i drafod materion proffesiynol, ac mae cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion yn cael eu cynnal yn fisol ag arweinwyr tîm cymunedol i drafod materion gweithredol.
- Caiff staff nyrzio ardal, waeth beth fo'u gradd, fynd i un o ddau fforwm sy'n cyfarfod bob yn eilfis i drafod materion sy'n ymwneud yn benodol â nyrzio ardal. **Slide 46**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk